

Tasg 3

(Craidd, eitem 2)

Mae geiriau wedi eu treiglo yn y gwahoddiadau. Ysgrifennwch nhw heb eu treiglo a dywedwch pam maen nhw'n treiglo.

| Treigladau | Heb dreigladau | Pam mae wedi treiglo |
|-------------|----------------|---|
| Ym mhriodas | Priodas | 'p' yn newid i 'mh' yn dilyn 'yn' ac mae'r 'yn' yn newid i 'ym' |
| Yng nghapel | | |
| Yng ngwesty | | |
| I ddathlu | | |
| Yn nhafarn | | |

Gan ddilyn y rheolau rydych wedi eu rhoi yn y grid, treiglwch y rhain yn gywir:

| Anghywir | Cywir |
|---------------|-------|
| Yn Porthmadog | |
| Yn Caerdydd | |
| Yn Tregaron | |
| Yn Ceredigion | |
| Yn Prenteg | |
| Yn Treffynnon | |